# DEDDF RHENTU CARTREFI (FFIOEDD ETC.) (CYMRU) 2019

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 5: Adennill Swm Gan Ddeiliad Y Contract

#### *Adran 22 – Adennill taliad gwaharddedig neu flaendal cadw*

101. Mae'r adran hon yn darparu y caiff person wneud cais i'r llys sirol i adennill taliad gwaharddedig neu flaendal cadw sydd wedi ei dalu gan y person, neu ar ei ran, mewn perthynas â chontract meddiannaeth safonol. Mae'r adran hon yn cyfeirio at y person sy'n gwneud hawliad o'r fath fel yr "hawlydd".

102. Yn achos adennill taliad gwaharddedig, er mwyn i'r hawliad lwyddo, rhaid i'r llys fod wedi ei fodloni y tu hwnt i amheuaeth resymol fod taliad gwaharddedig wedi ei wneud, ac nad yw'r holl swm, neu ran o'r swm, wedi ei ad-dalu. Os yw wedi ei fodloni, caiff y llys orchymyn i'r taliad cyfan gael ei ad-dalu, neu (os yw rhan ohono eisoes wedi ei had-dalu) y rhan honno o'r taliad sy'n dal i fod heb ei thalu. Dim ond pe byddai'r llys yn fodlon bod taliad gwaharddedig wedi bod yn ofynnol gan ddeiliad contract y gellid gwneud gorchymyn, ac mae hynny ynddo'i hun yn drosedd. At hynny, gallai'r ffaith bod ad-daliad wedi ei orchymyn fod yn fater i'w ystyried gan awdurdod trwyddedu wrth benderfynu a yw landlord neu asiant, yn ôl y digwydd, yn berson addas a phriodol i ddal trwydded at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf 2014.

103. Yn achos adennill blaendal cadw, er mwyn i'r hawliad lwyddo, rhaid i'r llys fod wedi ei fodloni, yn ôl pwysau tebygolrwydd, fod blaendal cadw wedi ei dalu ac y bu methiant i'w ad-dalu i gyd, neu i ad-dalu rhan ohono, i'r hawlydd yn unol ag Atodlen 2. (Mae'r prawf gwahanol a gymhwysir yn yr achos hwn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw methiant i ad-dalu blaendal cadw yn drosedd, yn wahanol i'r sefyllfa o ran ei gwneud yn ofynnol i berson wneud taliad gwaharddedig yn groes i adran 2 neu 3 o'r Ddeddf.) Unwaith eto, caiff y llys orchymyn bod y blaendal cadw cyfan yn cael ei ad-dalu, neu'r rhan sy'n weddill o unrhyw flaendal cadw a gymerwyd gan ddeiliad y contract.

104. Ni chaiff y llys ei gwneud yn ofynnol i swm gael ei ad-dalu os yw'r swm hwnnw wedi ei gymhwyso tuag at rent, neu'r blaendal sicrwydd o dan gontract meddiannaeth safonol.

105. Ni chaniateir gwneud hawliad i adennill taliad gwaharddedig pan fo achos troseddol wedi ei ddwyn mewn cysylltiad â'r taliad sy'n destun anghydfod, oni bai bod yr achos wedi ei ddirwyn i ben. Y rheswm am hyn yw y caiff y llys sy'n euogfarnu person am drosedd o dan adran 2 neu 3 mewn cysylltiad â thaliad gwaharddedig orchymyn bod swm sy'n cyfateb i'r taliad gwaharddedig yn cael ei dalu (adrannau 2(6) a 3(6)).